# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

142 CHWEFROR 1988


# Y BWRDD DAN GLO



MAE PENCADLYS ardal De Cymru o Lo Prydain yn Llanishen i'w gau, ac mae'r mwyafrif o'r pum cant o swyddi yno yn y fantol. Dyna ganlyniad cynllun cyfrinachol a luniwyd gan rai o uchel swyddogion y diwydiant glo yn ystod y misoedd diwethaf.

Nid yw manylion y cynllun yn hysbys hyd yn oed i nifer o uwch swyddogion gweinyddol Glo Prydain yn y rhanbarthau, ac ni fu unrhyw ymgynhori ag adran weinyddol Undeb Cenedlaethol y Glowyr, C.O.S.A.

Pan weithredir y cynllun, fe unir nifer o'r ardaloedd traddodiadol, gan adael tair ardal yn unig. Bydd swyddfeydd rhanbarthol ledled Prydain yn cau a chollir miloedd o swyddi.

Hyd yma gwrthododd Glo Prydain wadu neu gadarnhau'r newidiadau oedd ar y gweill. Ond dywedodd llefarydd: "Mae unrhyw adroddiadau am newidiadau sy'n effeithio ar swyddfeydd neu swyddi yn ddyfalu pur".

Daw pennod yn hanes diwydiannol Cymru i ben wrth i faes glo'r De ddiflannu, ac yn y dyfodol fe weinyddir yr ychydig byllau fydd yn weddill o swyddfeydd yng nghanolbarth Lloegr.

Er i'r cynllun dadleuol gael ei ddatgelu cyn y Nadolig ar raglen S4C "Y Byd ar Bedwar" a hefyd gan Arthur Scargill, wrth iddo ymgyrchu yn yr etholiad am y llywyddiaeth, ychydig o sylw a gafodd. Serch hynny, mae'r cynllun yn rhan hanfodol o'r broses gymhleth o baratoi'r diwydiant glo ar gyfer ei breifateiddio.

Gwyddys i'r ffaith bod nifer yr awdurdodau dwr yn achosi problemau dychrynllyd i'r llywodraeth geisio preifateiddio'r diwydiant.

Mae'n hysbys i Mrs. Thatcher osod cryn bwyslais ar breifateiddio'r diwydiant glo cyn yr etholiad cyffredinol nesaf. Am resymau hanesyddol ac ideolegol, ystyrir y diwydiant glo yn un o'r pwysicaf wrth i'r llywodraeth geisio gwblhau'r trawsnewid cymdeithasol a gwleidyddol y mae'n annelu ato.

Pan genedlaetholwyd y diwydiant ar 1 Ionawr 1947, codwyd fflagiau'r NCB uwch pob pwll a gosodwyd arwyddion newydd y tu allan yn datgan i'r pyllau gael eu rheoli gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol ar ran y bobl. I lawer o Geidwadwyr felly, byddai dadwneud y cyfan a'i werthu yn uchafbwynt teilwng i'r rhaglen o breifateiddio.

## Dathlu ar Stamp

Cydnabyddir yn gyffredinol mai`r cyfieithiad Cymraeg o`r Beibl yw`r cyhoeddiad unigol pwysicaf yn hanes diwylliant a chrefydd yng Nghymru. Bedwar can mlynedd yn ddiweddarach dethlir cyhoeddi`r Beibl Cymraeg gan bedwar stamp lliwgar y Post Brenhinol sydd i`w dosbarthu i bob swyddfa bost o Fawrth 1 ymlaen.

Mae`r stampiau`n coffáu`r gwŷr, yn lleygwyr ac eglwyswyr a ysbrydolwyd gan y weledigaeth bod angen cael Beibl y gallai`r Cymry ei ddarllen yn eu hiaith eu hunain. Cyhoeddwyd ffrwyth eu llafur yn ystod y cyfnod rhwng 1567 a 1620 ar ôl i Ddeddf Seneddol ym 1563 awdurdodi cyfieithu`r Beibl.




Cynlluniwyd y stampiau gan yr arlunydd a`r darluniwr o Gymro, Keith Bowen, 37 oed sy`n gweithio ar ei liwt ei hun. Arddangoswyd portreadau Mr Bowen, sydd â`i ganolfan yng Ngogledd Cymru, yn yr Oriel Bortreadau Cenedlaethol yn Llundain ac maent hefyd wedi ennill Medal aur iddo yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru.

## AWEN BRAFF Y DDAU BROFFWYD

Ar ôl i'w frawd Geraint ennill y gadair genedlaethol ym 1946 y dechreuodd y Parchedig Euros Bowen farddoni. Yn ystod heth hir gaeaf 1947 cafodd ei hun yn rheithordy Llangywair, a dyna gychwyn y ffrwd gyson o gerddi newydd eu natur a ddaeth o'i law wedi hynny gan ysgogi cryn drafod yng nghylchoedd llên y deugain mlynedd diwethaf hyn. Yr oedd rhywun yn amau y deuai'r llifeiriant i ben pan ymddangosodd y Detholion o'i gerddi cyhoeddedig ym 1984, a'r bardd erbyn hynny yn 80 mlwydd oed, ond yn awr ym 1987 wele gasglu ynghyd 87 o gerddi eraill ganddo yn y gyfrol hardd a hwylus hon, y bedwaredd cyfrol ar ddeg o'i farddoniaeth os iawn fy nghyfrif, ac un llawn mor ddiddorol â'r cyfrolau a'i blaenorodd.*

Bardd iau o'r hanner yw Donald Evans ond un a ddangosodd ei feistrolaeth lwyr ar foddau Cerdd Dafod ers blynyddoedd, gan gipio'r gadair a'r goron genedlaethol ill dwy ddwywaith. Dyma, mi gredaf, y nawfed cyfrol o gerddi ganddo ac nid yw'r pleser a rydd ei farddoniaeth yn pylu dim. Mae'n defnyddio'r wers rydd gynganeddol a mesurau cydnabyddedig y cywydd a'r englyn gyda'r un rhwyddineb yn y gyfrol ddiweddaraf hon sy'n digwydd ymrannu'n dair rhan.*

Mae gan Euros Bowen lais unigryw. Ni ellir peidio â sylwi ar ei ieithwedd a'i dechneg.

*Euros Bowen Oes y Medwsa Cyhoeddiadau Barddas tt 113, pris £4.95.

*Donald Evans O'r Bannau Duon, Cyhoeddiadau Barddas tt 83, pris £4.00.

Cymdeithas Cyn-Fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Mae'r Gymdeithas uchod yn tynnu at ei chanmlwyddiant.

Dyna ddechrau Cymdeithas a aeth o nerth i nerth gan gadw mewn cysylltiad agos â'r Coleg ac hefyd ei gynorthwyo ymhob ffordd posib dros y blynyddoedd.

Bydd nifer o aelodau'r Gymdeithas yn ymgasglu yn Aberystwyth mewn Aduniad Blynyddol dros benwythnos y Pasg. Caiff llawer mwy, na all fod yn Aber yr adeg hon, eu cadw mewn cysylltiad wrth dderbyn, ar ddechre pob blwyddyn, gyhoeddiad blynyddol y Gymdeithas. Hefyd, bydd nifer yn ymuno â changhenau'r Gymdeithas ym Mangor, Abertawe, Birmingham, Caerdydd, Llundain ac Aberystwyth.

Mae paratoadau eisioes ar waith i ddathlu canmlwyddiant y Gymdeithas yn 1992. Fel un o'r gweithgareddau, 'rydym yn ymdrechu i gael pawb a fu yn y Coleg, ac sydd heb ymuno â'r Gymdeithas hyd yn hyn, i wneud hynny ar fyrder.

Trefnir Te'r Gymdeithas ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol a gwahoddir yr Eisteddfodwyr o'n plith i ddod i hwnnw. Bydd 'Noson Aber' yng Ngholeg Caerllion ar nos Iau Eisteddfod eleni. Cewch sgwrs a chroeso, hefyd, ym Mhabell y Coleg ar Faes yr Eisteddfod.

Gyda llawer o ddiolch a phob dymuniad da,

Yn ddiffuant,

Dilys Wynne Lloyd
Ysgrifennydd Mygedol

182 Ffordd Caerdydd
Llandaf
CAERDYDD
CF5 2AD (0222) 562 154

# GWLAD DDA

Yn sgil llawer o gyhoeddusrwydd yn y papurau lleol, erthygl yn Sbec a noson lansio fywiog yng Nghanolfan Chapter, dyma'r rhaglen **I Wlad Dda a Helaeth** yn ymddangos ar S4C.

Fe'i seiliwyd ar ymweliad Cwmni Drama Brith Gof a Phatagonia a'u profiadau yno dros gyfnod o dair wythnos. Gwelsom mor effeithiol y bu eu hactio yno a'u gallu i ddylanwadu'n emosiynol ar eu cynulleidfaoedd wrth ddarlunio antur, ansicrwydd, hyder a hiraeth yr ymfudwyr yn y ganrif ddiwethaf. Cawsom gip ar y wlad hefyd - y cyfuniad diddorol o harddwch ac anialwch - a golwg ddwys ar y Gymraeg a Chymreigrwydd yno. Mor debyg, yn hynny o beth, y mae Cymru hithau; pobl yn troi'u cefnau ar y Gymraeg ac yn honni y gallant fod yn Gymry 'diwylliannol' hebddi.

Roedd hi'n rhaglen, felly, a digon ynddi i wneud ichi feddwl yn ddwys. Braidd yn fyr oedd hi, gwaetha'r modd, a dim cyfle gan bobl Brith Gof i egluro yr hyn a olygodd yr ymweliad iddynt hwy. Ac er bod y camera a'r meicroffon wedi cofnodi nifer o olygfeydd a sylwadau dadlennol, profiad braidd yn rhwystredig a gafodd y gwyliwr; y teimlad fod y rhaglen yn annigonol ac anghyflawn.

Marciau llawn i S4C fodd bynnag am gydweithio â gweithdy fideo Chapter. Gall nifer o raglenni anturus a 'gwahanol' ddeillio o'r berthynas addawol hon.

Philip Wyn Jones


GWESTY FFERM
PENBONTBREN

Penwythnos Gwyl Dewi
26 - 28 Chwefror 1988

2 noson, cinio, ystafell a brecwast.

Nos Sadwrn 27ain
bwffe ac adloniant
gan Ieuan Jones
- telynor Ty'r Cyffredin,
ac hefyd
y dawnswyr Siwan ac Aron.
£45 y person.


Diolch yn fawr i Gwilym Roberts am ei rodd caredig.

# Y CALENDR

Chwefror 22
- Mawrth 8 Arddangosfa ar y thema 'Cyfieithu'r Beibl' yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, wedi ei drefnu gan Ysgol Esgob Llandaf.

Mawrth

1 Cyhoeddi Cyfieithiad Newydd y Beibl. Bydd Gwasanaeth arbennig undebol i lansio'r cyfieithiad yn cael ei gynnal yn ystod y prynhawn yng Nghapel y Bedyddwyr, Tabernacl, Caerdydd. Mynediad trwy wahoddiad.

6 'Pasiant y Plant' i ddathlu cyfieithiad newydd y Beibl yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth am 10.30 o'r gloch.

6 Gwasanaeth Dathlu Cyfieithiad Newydd y Beibl yng Nghapel Bethel Penarth gan Ysgol Gymraeg Penarth am 10.45 o'r gloch. Bydd 'Cannwyll y Cymro' yno yn ystod y Gwasanaeth.

6 Theatr y Sherman am 8 o'r gloch. Disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari yn perfformio 'Yn y dechreuad ....', drama gerdd ar fywyd a gwaith yr Esgob William Morgan. Geiriau: Mair Gruffydd; Cerddoriaeth: Euros Rhys Evans. Tocynnau: £3.50

Clywsom gyda thristwch am farwolaeth tad y Parchedig Dafydd Owen, Llandaf, ar Ionawr 16eg. Dymunwn gydymdeimlo'n ddwys â Dafydd a Brenda, Rhys a Rhian yn eu hiraeth.

Llongyfarchadau i Sian Angharad, merch Idris ac Eluned Hughes, Radyr, ar ennill gradd M.Sc. yn Daeareg o Brifysgol Manceinion.
Un o gyn-ddisgyblion Bryntaf a Rhydfelen yw Sian, sydd yn awr yn gweithio fel Daearegwr gyda Chwmni Poroperm-Geochem yng Nghaer.

# BAFTA Cymru

Bellach mae gan Gymru, fel sydd yn gweddu i genedl fu'n gymaint o arloeswr yn y maes dros y pum mlynedd diwethaf, ei changen ei hunan o BAFTA (The British Academy of Film and Television Arts). A go brin y gallai'r un gymdeithas newydd ddymuno gwell achlysur i gychwyn ei gweithgareddau na'r hwn a fwynhawyd gan tua dau gant o bobl yn Chapter ar Ionawr 10fed.

Cyfle yn gyntaf i gael gweld ffilm rymus iawn, Cry Freedom - campwaith diweddaraf Syr Richard Attenborough. Ffilm yw hon sydd yn olrhain hanes Steve Biko, yr arweinydd ifanc, du a lofruddiwyd gan heddlu De Affrica ym 1977 a'i berthynas â Donald a Wendy Woods. Golygydd papur newydd oedd Donald (a fwriodd ran o'i brentisiaeth, gyda llaw, ar y Western Mail) - dyn gwyn, eithaf rhyddfrydol ond eto yn esmwyth iawn ei fyd yn Ne Affrica tan iddo gyfarfod â Steven Biko. Ymhen byr amser wedi'r cyfrfyddiad yr oedd ef, fel Steve Biko, yn un o'r 'gwaharddedig rai' yng ngolwg cyfraith De Affrica.. Ar ôl marw Biko dan ofal yr heddlu, ffodd Donald Woods a Wendy a'u pum pletyn i Lundain er mwyn cael cyhoeddi'r gwirionedd am farw Biko. Hanes cyffrous y ffoi yw ail hanner y ffilm, Cry Freedom.

Cynulleidfa o bobl sydd yn gweithio o fewn y diwydiant ffilm a theledu oedd wedi ymgynnull yn Chapter ar y prynhawn Sul hwn - pobl sydd, yn ôl y ddelwedd gyffredin ohonynt, yn rhai sinigaidd, gwybod-y-cyfan, calongaled - cynulleidfa bur anodd i'w phlesio, felly. Serch hynny, nid oedd yno'r un y prynhawn hwnnw na chafodd ei gyffwrdd - a'i ysgwyd - gan y ffilm. Rhyddhad i bawb oedd bod y trefnwyr wedi bod yn ddigon doeth i ganiatáu seibiant cyn i weithgareddau'r prynhawn ailddechrau gyda seiat holi.

A hon oedd braint fawr y diwrnod - cael cwmni y tri a esgorodd ar y ffilm, Richard Attenborough a Donald a Wendy Woods. Cafodd y tri groeso eithriadol o gynnes. Yn wir, pan alwyd ar Donald a Wendy i ddod i'r llwfan cododd y gynulleidfa ar ei thraed.

Er mai cyfarfod o BAFTA oedd hwn nodwedd galonogol o'r holi oedd mai ar elfennau dynol a moesol y ffilm ac nid ar y rhai technegol yr oedd yr holwyr yn awyddus canolbwyntio. Beth tybed fu tynged rhieni Wendy a'i helpodd i ffoi? A yw'r plant wedi ymgartrefu mewn gwlad ddieithr? Pa obaith oedd iddynt fyth eto fyw fel teulu yn Ne Affrica? (Ateb pendant iawn i hwn gan Wendy - De Affrica oedd ei chartref ac yr oedd yn rheidrwydd arni fyw mewn gobaith.) Yn wir, byrdwn y drafodaeth yw moeswers y ffilm.

Dymuniad gwreiddiol Richard Attenborough meddai oedd, nid cynhyrchu gwaith cywrain o gelfyddyd esoterig ond denu miliynau i weld y ffilm a cheisio gofalu na fyddai un person a welodd y ffilm yn mynd allan o'r sinema'n ddifater, yn ddihidans, am yr erchyllter a elwir yn apartheid. Yn ddi-os cyflawnodd y dymuniad hwnnw hefyd.

Er mor drist ar un wedd yw'r neges, mae'r ysbryd arwrol a groniclir ac a glodforir yn y ffilm yn creu gobaith - yr un gobaith sydd yn cynnal dyhead Wendy Woods i ddychwelyd i'w chartref.

Bydd y ffilm Cry Freedom i'w gweld yng Nghaerdydd o Chwefror 19eg ymlaen. Ewch i weld y ffilm ac, os am fwy o wybodaeth am BAFTA CYMRU, fel y gellwch fanteisio yn y dyfodol ar gyfle amhrisiadwy fel ag a gafwyd yn Chapter ar Ionawr 10fed, cysylltwch â Marc Evans, Gweinyddwr BAFTA Cymru, Canolfan Chapter, CAERDYDD 223898.

Emyr Daniel


**Huw Roberts** BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

| | |
|---|---|
| Treth | Buddsoddi |
| Cyfrifon | Pensiynau |
| VAT | Morgeisi |

*"Preswylfa",*
*28 West Hill Drive,*
*Llantrisant,*
*Morgannwg Ganol*
*Ffôn Llantrisant 224182.*




Syr Richard Attenbrough, Stella Mair Thomas a Marc Evans. (Llun trwy garedigrwydd HTV)

## LLID YR YMENNYDD

Bu pryder cynyddol drwy yr wythnosau diwethaf yn sgîl y newyddion am achosion o lid yr ymennydd, yn enwedig wedi iddynt ddod yn nes at gartre gydag, erbyn hyn, bymtheg o achosion yng Nghymru a phump ohonynt yn Ne Morgannwg.

I fod yn hollol gywir, llid y breithelli yw'r clefyd i ddechrau ac yna mae'n bosibl iddo ddatblygu yn llid yr ymennydd. Mae'r llid yn ddigon cyffredin i feddygon teulu ond mae'r haint arbennig yma yn llawer mwy difrifol.

Achosir ef gan facteriwm o'r enw Neisseria Meningitidis sy'n cael ei drosglwyddo trwy'r awyr, ac fel y gwelwn yn aml, yr hen a'r ifanc sy'n fwyaf tebygol o'i ddal.

Er hynny mae'r clefyd yn llawer mwy peryglus ar y cyfan i fabanod a phlant hyd at 5 oed oherwydd nad oes amddiffynfa naturiol i'r bacteriwm wedi datblygu. Yn ôl adroddiadau o labordy ym Manceinion sy'n dadansoddi ansawdd y bacteriwm, mae dau beth yn peri pryder. Yn gyntaf, bod nifer achosion a gofestrwyd wedi cynyddu o 100 yn 1984 i dros fil llynedd, ac yn ail, mae'r bacteriwm yn newid ei wedd fel petai, ac yn gwneud triniaeth gyda gwrthfodig yn anos. Y gobaith yw y bydd y brechlyn (vaccine) ar gael cyn bo hir i ymladd y clefyd.

Mae'r llid yn ei amlygu ei hun ar y dechrau gyda salwch digon diniwed yr olwg - y trwyn yn rhedeg, anhwylder a gwres efallai. Yna mae plentyn yn cwyno am gur pen a does dim archaweth ganddo at fwyd. Mae hefyd yn gwynfanllyd iawn. Mae brech yn datblygu yn y mwyafrif o achosion a dylai hyn fod yn sbardun i ddanfon y claf i'r ysbyty ar unwaith..

Un o broblemau meddygon teulu yn Swydd Gaerloyw, yn Stroud, oedd y ffaith nad oedd achosion yno yn dangos nodweddion a gysylltir yn aml â'r clefyd ac felly rhaid bod yn wyliadwrus tu hwnt. Os oes gan rywun unrhyw amheuaeth dilai gysylltu ar unwaith â'r meddyg teulu.

Dylid pwysliesio fodd bynnag nad yw'r broblem yn enfawr ar hyn o bryd, er mor ddifrifol yw'r cyflwr hwn. Dylid cymysgu agwedd wyliadwrus â rhan go dda o synnwyr cyffredin a'r gobaith yn y pen draw fydd datblygiad y frechlyn.

Jestyn Harries

Dymuniadau gorau i'r Dr Huw Evans, mab Mr a Mrs Bernard Evans, yn ei gartref newydd yn Nhrefach, Felindre. Y mae Huw wedi ymuno â phractis fel meddyg teulu yn ardal Llandysul.

# ARTHUR MILES

Ganed Arthur Miles yn Favesham, Gardd Lloegr yn 1906. Yn y blynyddoedd cynnar fe fu'n weithiwr cyffredin yn mynd o fan i fan. Cyn hir daeth galwad y brws paent ac heb wers yn y celfyddydau aeth ati i addysgu ei hunan gan arbenigo mewn gwaith dyfrlliw.

O 1921-1943 bu Arthur yn gweithio mewn gwahanol feysydd fel artist proses, llythrennwr, yn gynlluniwr yn y theatr ac mewn orielau. Ond yn 1968 penderfynodd fod yn artist llawn amser a dod i fyw yng Ngwaelod y Garth.

Bu'r lle a'r ardal yn ysbrydoliaeth i Arthur i beintio pob cwr a chornel a phob pant a bryn. Rwy'n siwr fod cannoedd o'i luniau yng nghartrefi'r ddinas a'r cylch.



Ond nid sefyll yn yr unfan a wnai Arthur. Fe deithiodd Cymru gyfan fel George Borrow gynt gan dynnu llun man hyn a man acw. A'r cyfan o dan raen mistr y cyfrwng anodd - dyfrlliw. Ie, fe oedd y prif a phennaeth y cyfrwng hwn yng Nghymru. Roedd y coed a'r caeau yng ngolygfeydd Arthur yn denu'r edmygwr i oedi a llonyddu yn nhawelwch y tirlun tarawiadol.

Yn ol yn 1959 sefydlwyd Cymdeithas Dyfrlliw Cymru ac Arthur oedd un o'r aelodau cyntaf ynghyd ag artistiaid eraill fel Leslie Moore, Gyrth Russell, Alfred Morgan Hall, Bert Isaac ac ati. O gnewyllyn bach fel hyn fe dyfodd y Gymdeithas yn un gref ac aelodau yn agos i'r deugain ar hyn o bryd. Penodwyd Arthur Miles yn Lywydd y Gymdeithas yn 1984. Swydd a ymgymrodd gyda brwdfrydedd gan gyfarwyddo a chynghori ar ol oes o ymlwybro ym maes y dyfrlliw.

Er hyn mae ei waith yn amrywiol oblegid ei yrfa a'i gefndir cynnar. Mor fedrus mewn pensil, pen ac inc a'r brws. Fe gofiwch efallai rhith o gapeli Cymru a bortreadodd yn 1969 dan y teitl 'Recording Wales - Chapels' ac ar ol hyn fe arddangosodd yn 1973 gymeriadau Cymru - 'Portraits of Welsh People'. Os ewch i'r Amgueddfa yng Nghaerdydd ac i'r Adran Archeoleg Ddiwydiannol, cewch weld chwe murlun wedi ei seilio ar hanes diwydiannol Cymru ac hefyd ddeuddeg golygfa o Eglwysi Cymru. Fe ellir son am lawer o gomisiynnau a wnaeth dros hyd a lled Cymru. Er mai Sais oedd yn wreiddiol roedd ei galon yng Nghymru a dros Gymry. Nid oedd angen mynd dros Glawdd Offa er mwyn cael ysbrydoliaeth i'w dirluniau; roedd y cyfan gerllaw a weithiau ambell daith i'r Gogledd ac yn ol drwy Ddyfed i'r De. Roedd yn caru'r wlad a'i phobol. Yn wir, roedd ei galon yn agos iawn i'r gweithiwr yn enwedig y glowr. Yn rhoddwr hael ac yn weithiwr dibaid yn ei ymdrechion i wella y rhai a wasgwyd gan orthrymderau gwahanol. Yn Lafurwr dygn, os dim efallai yn gomiwnydd.

Cefais y fraint fawr i ddod i adnabod Arthur fel gwr diymhongar dirodres, doeth a phwyllog yn ei gynghorion. Yn addysgwr heb ei ail ym maes y dyfrlliw.

Mae Cymru wedi colli un o gewri ym myd y celfyddydau.

Ein cydymdeimlad a'i wraig Valerie ac a'i ddau fab.

Stan Jones,
Cadeirydd Cymdeithas
Dyfrlliw Cymru.

# Eisteddfod Casnewydd

Yng Ngwent nawr yr ydym yn teimlo fel rhedwr mewn marathon yn dechrau y lap olaf - y diwedd mor agos ond eto, rhywfodd, yn brofoclyd o bell. Wedi'r cwbl, mae paratoi ar gyfer y Brifwyl heddiw yn fath o farathon yn ymestyn dros dair blynedd - gyda digon o rwystrau ar y ffordd.

Erbyn hyn mae'r cynlluniau wedi ffurfio - mae'r 'dice' wedi taflu. Does dim mynd nol ar y cystadlaethau er enghraifft. Ar y cwbl, yr ydym yn hapus ac yn obeithiol gyda beth a drefnwyd.

Nid annisgwyliaday mewn rhanbarth lle mae dim ond lleiafrif bach yn medru'r iaith, fwriadwyd llawer o gyfnewidiadau gan bobl Gwent. Wrth gwrs, mae pob Eisteddfod yn datblygu ei chymeriad arbennig ond efallai y bydd y tueddiad hwn yn fwy cryf yng Ngwent.

Mae'r Brifwyl yn dod yn amserol iawn - ar adeg pan mae statws yr iaith yn y sir yn newid: wedi'r cwbl, mae mwy o oedolion yn dysgu'r iaith nag yn unrhyw sir arall yng Nghymru; mae'r nifer o blant yn dechrau addysg ddwyieithog yn cynyddu blwyddyn ar ol blwyddyn ac eleni bydd yr Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yn agor yng Ngwent - yn Cwmcarn.

Mae'r bump fwrdeisdref yng Ngwent yn ein cefnogi ni yn gryf - yn enwedig Bwrdeisdref Casnewydd sydd wedi gwahodd yr Wyl i'r dref. O'r dechrau mae eu haelodau a'u swyddogion wedi cydweithredu gyda ni i raddau nodedig. Mae diwydiant hefyd wedi ein cefnogi ni yn hael iawn - rydym wedi cael mwy o noddiant o'r ffynhonnell yma nag unrhyw Eisteddfod flaenorol. Diolch am hynny oherwydd mae hi ddim wedi bod mor hawdd i godi arian mewn apeliadau lleol wrth gymharu a broydd lle mae mwy o Gymry Cymraeg yn y boblogaeth.

Yr ydym yn gynhyrfus hefyd am y Babell Ysgafn newydd. Mae hon yn arbrawf eleni a bydd pawb yn ymddiddori yn y canlyniadau - bydd Cyngor yr Eisteddfod yn ystyried yr arbrawf trwy'r wythnos. Yn sicr, yr ydym yn hyrwyddo'r datblygiad yma fel cyhoeddusrwydd i'r Wyl - mae'n edrych yn ddwyreiniol ac yn anghyffredin. Fe fydd yn addas iawn yn sefyll rhwng hen goedydd hardd Parc Tredegar gyda Phlas teulu Morgan fel cefndir. Efallai daw Ifor Hael yn ol i'w hen gynefin yn Awst!

Ymlaen Eisteddfod Casnewydd!

John H.


celtic asset management ltd.

Delwyr Trwyddedig mewn gwarannau

TY PENHILL, HEOL PENHILL, CAERDYDD, CF1 9UP.
Ffon: 394021. Facs: 383803

Gwasanaeth Newydd: Y MEDDYG ARIAN.

A ydych yn gofidio am eich trefniadau ariannol, buddsoddiadau ac ati, yn enwedig yn sgil y cwympiadau yn y marchnadau stoc?

A ydych eisiau barn a chyngor diduedd ac annibynnol?

R'ydym yn arbenigwyr yn y maes ac yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol newydd, am gost pendant - a fydd ddim yn fwy na £75 heb T.A.W. nac yn llai na £25 heb T.A.W.

Y cam cyntaf? Cysylltwch a Peter Cardinali neu Dafydd Hampson-Jones am fwy o wybodaeth.

## Colofn i Feddwl

Bydd llawer ohonoch chi sy`n darllen hwn yn cofio`r Parchedig Vivian Jones, bellach yn weinidog ar eglwys fawr Plymouth yn Minneapolis yn America. Pan gyfyd achos, byddaf yn cynnal cyfweliad â Viv ar y ffôn ar gyfer bore Sul ac wedi gorffen y sgwrs swyddogol bydd gan Viv air neu ddau ychwanegol i`w dweud. Gan amlaf byddaf yn fy nyblau yn gwrando arno oherwydd mae gan y brawd hiwmor unigryw. Beth amser yn ôl, dyma`r stori:

`A`th Mary a fi lawr i Mankato am wac yn y car ddo´, ac fe welon ni`r <u>Historical Marker</u> `ma´n gweud fod mynwent mas yn ganol y ca`. Stopon ni`r car a mas â ni a chered ar draws y ca´. A phan gyrhaeddon ni`r bedde, rodd jest pob carreg yn y Gwmrag. Evans a Jones a Williams o`n nhw gyd bŷn. Pan ethon ni`n ôl i ddishgwl ar y <u>Marker</u> fe welon ni fod stori`n sownd wrth y lle.´

A dyma hi i chi. Yn nyddiau`r Indian Raids byddai pawb yn yr ardal yn mynd i lochesu yn y <u>fort</u> ym Mankato pan fydde pethau`n ddrwg. Yn ystod un cyrch, ni fynnai un hen lanc crefyddol fynd i`r <u>fort</u> am fod yr Arglwydd wedi dweud wrtho ei fod gydag ef bob amser. Ac i ffwrdd â phawb i`r <u>fort</u> gan adel yr hen foi yn ei gabin.

Pan gyrhaeddwyd y <u>fort</u> oedd daith hanner diwrnod i ffwrdd, pwy oedd yno yn disgwyl amdanynt ond yr hen lanc. `Pam wyt ti yma?´ medden nhw. `Wel,´ meddai yntau, `wedi ichi i gyd fynd fe estynnais fy Meibl a dechre darllen ac fe welais adnod, "Lle bynnag y mae dau neu dri wedi ymgynnull, yno yr ydwyf finnau yn eu canol". Dau neu dri a finnau fanno fy hun. Fe neidies ar fy ngheffyl a dyma fi - gyda`r dau neu dri.´

A Viv yn chwerthin lond bola.

Ond does dim eisie dau neu dri nag oes. Yn ein calon Athro da, ysgrifenna d`eiriau. Fy nghalon, Dy galon.

<u>Meurwyn Williams</u>

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

## MENNA'N MANYLU

Pan glywais i am benodiad newydd i`r swydd o olygydd y <u>Welsh Nation</u> mi es ati`n syth i holi`r ymgeisydd llwyddiannus. A`r person hwnnw fydd yn olynu Janet Davies ydy Gwerfyl Arthur - merch sydd wedi byw yng Nghaerdydd ers nifer o flynyddoedd, ond sydd, fel finne`n hanu o Lanuwchllyn. Hi yw Ysgrifennydd Gweinyddol Plaid Cymru, yn gweithio yn Swyddfa`r Blaid yr Heol yr Eglwys Gadeiriol, ´Does ryfedd felly i`r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ei hethol hi i`r swydd am y flwyddyn nesaf gan ei bod wastad mor weithgar ac ymroddgar ym mhob galwedigaeth.

Papur sy`n cael ei argraffu bob yn eilfis â`r <u>Ddraig Goch</u> ydi`r <u>Welsh Nation</u> ac yn cael ei ddosbarthu trwy ddrws ffrynt yr aelodau. Mae`r papur i`w gael am ddim gan eu bod yn talu amdano yn y tâl aelodaeth ond o`i brynu yn y siop mae`n ugain ceiniog.

Nid yw`r Blaid yn derbyn dim cymorth ariannol at gynhyrchu`r papur a dydi Gwerfyl chwaith ddim yn derbyn tâl am fod yn olygydd. Ar ôl ei gwaith yn y swyddfa mae`n gweithio arno a hynny yn ei chartref - llafur cariad yw`r cyfan i baratoi`r holl waith ond yn ôl brân wen, sy`n berthynas agos iddi, roedd gan Gwerfyl ddigon o waith fel yr oedd hi yn y Swyddfa.

Fe ofynnais iddi sut mae`n teimlo i weithio yn Saesneg a dywedodd ei bod yn hollol gartrefol yn gwneud hynny er nad ydi hi ei hun yn sgwennu fawr ddim - aelodau`r Blaid eu hunain sy`n cyfrannu iddo, ond mae gohebyddion a newyddiadurwyr proffesiynol yn cyd-drefnu a chydweithio â hi.

Beth ydi pwrpas papur Saesneg, gofynnais, a`r ateb syml oedd i holl aelodau`r Blaid, boed yn Gymry neu`n Saeson fod yn ymwybodol o`r gwahanol bolisiau a`r datblygiadau diweddaraf. Ac yn sicir meddai mae`n gam tyngedfennol cysylltu efo`r holl aelodau a`u hymgyrchoedd.

Gofynnais sut dechneg oedd ganddynt i gysodi a chynhyrchu`r papur. Pethau hollol sylfaenol a syml ar y funud, meddai, ond mae technoleg newydd ar y gorwel. Bydd `<u>Desk Top</u> fel y`i gelwir yn cael ei ddefnyddio o hyn i`r haf, sef cysodi`r papur trwy gyfrifiadur. Ond ar y funud mae`n edrych ymlaen yn arw at weld ffrwyth cyntaf ei llafur yn cael ei gyhoeddi yn y dull presennol.

Yr un sy`n golygu papur Cymraeg y Blaid, y <u>Ddraig Goch</u> ydy Alun Ffred, a theimla Gwerfyl ei bod yn fraint ac yn anrhydedd bod ar y Pwyllgor Gwaith gan fod tri ohonynt yn gyn-ddisgyblion yn yr un flwyddyn yn Ysgol y Berwyn, Y Bala, Ieuan Wyn, Alun Fred a hithau.

Ac ar y nodyn calonogol yna, a finne hefyd wedi derbyn fy addysg yn yr un ysgol, mi fanteisiaf ar y cyfle i longyfarch Gwerfyl ar ran y <u>Dinesydd</u> gan obeithio y bydd yn mwynhau`r dasg newydd am y flwyddyn nesa ac y bydd diwyg a gwerthiant y <u>Welsh Nation</u> yn mynd o nerth i nerth.

Gwersi piano, theorie a phîb

Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath

Ffôn: 488399

Cysylltwch o fis Awst ymlaen

**COLEG PRIFYSGOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH**

**GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**
**I FYFYRWYR ALLANOL**

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1988. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG
neu
Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:
ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Ysgrifennydd Gweinyddol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 15 Ebrill 1988.

# Y TAD A'R CIW

Cyfle i wynebu rhai o chwaraewyr proffesiynol gorau'r byd' - dyna un frawddeg i geisio denu cymaint â phosib i gymryd rhan mewn cystadleuaeth snwcer newydd sbon. Cystadleuaeth i dad a mab a noddwyd gan Pirelli a Matchroom. `Beth am roi cynnig arni?´ meddai'r mab, Iwan. I fachgen dwy ar bymtheg oed, dyma gyfle gwych i gyfarfod â sêr y byd snwcer. A barnu wrth ffigurau gwylio S4C maen nhw'n sêr hefyd i filoedd o Gymry ledled y wlad. Ond nid ar chwarae bach oedd gwireddu'r freuddwyd! Roedd rhaid yn gyntaf dod o hyd i un pâr - o dad a mab - i gynrychioli'r Cymry, ac felly am y saith rhanbarth arall o Brydain.

Bu 64 pâr yn chwysu o ddeg y bore tan yn hwyr yn y dydd yng Nghaerdydd. Buom yn agos iawn at golli yn y rownd gyntaf un ond buom yn llwyddiannus. Y ni felly oedd i gynrychioli Cymru yn Birmingham.

Fe gyrhaeddom Westy'r Albany am 6 o'r gloch y diwrnod cynt a chael swper gyda'r saith pâr arall. Er bod y bwyd yn hynod flasus roedd yn anodd iawn ei fwynhau. Roedd y nerfau yn gorweithio yn barod. Am ddeg y bore canlynol dyma fynd ati a threchu tad a mab o Dde Lloegr yn weddol gyfforddus. Ond nid felly yn erbyn pâr o Ogledd Iwerddon - colli honno, er yn gêm agos iawn.

Un ffrâm oedd rhyngom ni a chwarae yn erbyn enwau fel Steve Davies a'i dad, Terry Griffiths a'i fab, Ronnie Taylor a'i fab a Geoff a Neal Foulds. Pâr o Ganolbarth Lloegr oedd ein gwrthwynebwyr nesa ni, a doedd dim yn ein gwahanu nes dod at y tair pêl ola - y las, y binc a'r ddu. Mi chwaraeodd Iwan ergyd amddiffynnol dda iawn am y las - yna'r mab arall wrth geisio gwneud yr un peth yn cael ffliwcen, a dyma'r las i lawr. Wedi peth chwarae amddiffynnol dyma fi o'r diwedd yn cael cyfle i gael gwared ar y binc ond roedd y ddu ar yr ymyl a dim modd o gwbl i'w suddo hi.

Ymgais arall i gadw'r bêl ola un yn saff ond gadewais ergyd weddol hir i dad y pâr arall. Hwnnw yn methu'i suddo, ond y ddu yn taro yn erbyn dau ymyl - dyna ffliwcen arall, a dyna ddiwedd ar ein hymgais ni i fod yn Bencampwyr Prydain. Dau o'r Canolbarth enillodd y Rownd Derfynol a gwobr o £500. Cawsom benwythnos fythgofiadw, chwarae snwcer ar fwrdd o'r safon uchaf, gyda dyfarnwyr proffesiynol yn bresennol, a chyfarfod â meistri'r llain gwyrdd. Digon o fwyd a diod. Boddi, hwyrach, yn ymyl y lan, ond mi ddaw cyfle eto!




Chwaraewyr snwcer addawol yng nghmni Geraint Jones a'i fab Iwan.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

Aries
>Fe ddylai pethau fod ar i fyny ddechrau'r flwyddyn hon, yn enwedig yn y gwaith. Fe fydd eich gwaith caled yn dwyn ffrwyth cyn hir. Ond gofalwch beidio â chodi gwrychyn y bos!

Taurus
Mis rhamantus. Cofiwch ddanfon ffolant! Efallai y bydd galw arnoch i ofalu am glaf. Erbyn canol y mis bydd ffawd o'ch hochr a chewch gyfle i wella'ch byd ac i deithio efallai.

Gemini
Mae na newidiadau yn yr adran ariannol o'ch siart - a gall fynd y naill ffordd neu'r llall! Dylai'r sefylla wella yn eich bywyd personol. Mae hwn yn gyfnod ardderchog i ddechrau dysgu gwyddor newydd - neu i deithio.

Cancer
Mae hi'n bryd rhoi trefn ar eich sefyllfa ariannol cyn yr aiff hi'n rhy hwyr. Byddwch yn barod am rai digwyddiadau annisgwyl yn eich bywyd carwriaewthol yn y misoedd sydd i ddod. Cedwch eich tymer dan reolaeth!

Leo
Daeth y cyfle i sbring clinio'n gynnar eleni. Teflwch bob peth allan o'ch bywyd personol, eich gwaith a'r tŷ sy bellach o ddim pwysigrwydd i chi. Os na wnewch chi hyn fe ddaw'r sêr ag ambell sioc annisgwyl i chi.

Virgo
Bydd rhwystrau di-ri yn eich poeni bron trwy gydol y mis ac mi fyddwch yn teimlo na fydd dim yn mynd yn hwylus. Gellwch ddisgwyl newidiadau annisgwyl yn eich byd creadigol a charwriaethol. I fyny bo'r nod!

Libra
Mis cariadus! Cewch ffolantau di-ri mae'n siwr. Bydd unrhyw garwriaeth sy'n dechrau nawr yn siwr o lwyddo. Os ydych wedi ffraeo gyda rhywun nawr yw'r amser i gymodi. Byddwch yn barod am newidiadau yn y cartref.

Scorpio
Os nad ydych eisoes wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol yn eich bywyd, a chael gwared ar yr hen elfennau sy wedi bwrw'u plwc, gwnewch hynny ar unwaith! Dylech glywed newyddion da ynglŷn â'r teulu neu'r cartref tua chanol y mis.

Saggitarius
O'r diwedd mae Sadwrn ac Uranus wedi gadael eich arwydd! Dylai'ch bywyd personol fod yn llawer symlach a sefydlog o hyn ymlaen. Ond cymerwch rybudd - o hyn ymlaen bydd y pwyslais ar eich bywyd ariannol.

Capricorn
Yn ystod y mis tyngedfennol hwn bydd Mawrth yn egniol, Sadwrn y disgyblwr ac Uranus planed yr annisgwyl yn symud i'ch arwydd. Gall unrhyw beth ddigwydd! Mae hi'n bryd agor pennod newydd yn eich bywyd a hynny gydag arddeliad.!

Aquarius
Rhaid i chi ystyried eich bywyd personol a phroffesiynol a gwneud y newidiadau angenrheidiol, cyn i'r sêr wneud hynny drosoch chi. Gall cyfaill eich siomi, ond peidiwch â gwneud dim sy'n fyrbwyll.

Pisces
Os nad aeth pethe'n rhy dda yn y gwaith yn ddiweddar fe ddylent wella nawr. Byddwch yn teimlo'n isel braidd. Peidiwch â ffraeo gyda'ch cyfeilion. Mae eu hangen arnoch yn awr.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816





Arlwyo Avril
Partïon, ac Achlysuron Arbennig.
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.
Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.

# FFYTYG

FFASIWN Y TALFYRRU YSTYR GEIRIAU

Ydych chi'n Yuppie? Neu'n Guppie? Neu efallai'n Ddinky? Neu - druan ohonoch - yn Lombard?

Ar goll? - Wel, termau ydy'r rhain i ddisgrifio math arbennig o bobol. Teip. Mae'n ffasiynol nawr - ymhlith y dosbarth canol - i ddefnyddio'r termau hyn. Nhw ydy'r ansoddeiriau newydd - y dull trendi o siarad. Ond nid geiriau go iawn mohonynt, ond yn hytrach gyfres o lythrennau. Talfyrru ystyr geiriau yw'r nod, e.e. ystyr Dinky yw 'Double Income No Kids Yet'; Lombard yw 'Loads Of Money But A Right Dick'; Dechrau deall? Nabod y teip hyd yn oed?

O ydi, mae'n beth digon difyr. Fel chwarae Scruples a Trivial Pursuit. A'r 'gair' enwoca wrth gwrs ydy'r Yuppie - Y 'Young Upwardly Mobile Professional Person'. Cuppie yw'r brid Cymraeg : Y 'Cymry Young Upwardly Mobile Professional Person'. Yn Llundain, cywion ifanc y City sy'n cael eu dychanu hefo'r termau hyn. Ond yma yng Nghaerdydd, rwy'n rhyw dybio mai cywion y Cyfryngau sy'n ei chael hi. Nhw a Chyfreithwyr, Penseiri - y teip yna.

Felly be sy'n g'neud Cuppie? Beth yw ei nodweddion? Wel - y nodweddion materol yw'r rhai pwysica. Yr **unig** rai fyddai ambell i sinic yn awgrymu. Wedi'r cyfan, dydy'r ysbrydol ddim yn berthnasol i'r Dreth Incwm a'r Farchnad Stoc.... Y nodweddion felly? Ty ym Mhontcanna - neu'r Fro (hefo dodrefn hynod chwaethus a drud) car yr un; Chwarewr C.D.; gwyliau sgio yn y gaeaf; gwyliau brownio yn yr haf cynnar/hwyr - byth ym mis Awst. Heb anghofio'r buddsoddi cyfalafol, y 'stocks and shares"....

Wedi dweud hynny, ma' nhw **yn** Ddiwylliedig (Mae'r D fawr yna'n bwysig). Fe'u gwelir ym mhob cynhyrchiad theatr Cymraeg; yn y Chapter; yn gwylio'r ffilmiau dyrys o Hwngari, Ffrainc, Outer Mongolia a'r C4UK bob nos Wener. Nid er mwyn y mwynhad chwaith. Er mwyn medru deud dros swper yn Spanghero's am y siot artistig honno yn yr ail olygfa, y gwaith camera celfydd, ystyr symbolaidd y goeden ar y diwedd....

I gloi, beth am i ddarllenwyr Y Dinesydd geisio dyfeisio termau newydd - rhai Cymraeg Gem fach ddifyr ynte? Dw i wedi meddwl am ddau : Tomys a Samychadds. Tybed a fedrwch chi ddyfalu eu hystyr? Wna i mo'u datgelu nhw y tro hwn - felly gyrrwch eich cynigion at y Golygydd (gweddus plis!)

Angharad Jones.

---

Diolch i Heulwen a Handel Morgan am eu cyfraniad hael i goffrau`r Dinesydd. Gwerthfawrogwn bob cyfraniad.

# BWTH RUTH



Wel helo, pa hwyl sydd, a Blwyddyn Newydd Dda i chi. Newydd ddod yn ôl o'r Gogledd wedi bod yn gwarchod y ledis am rhyw dridia - ar ben fy hun cofiwch!!! Unarddeg ydi Sara ac yr wythnos hon dwi'n falch o ddeud ei bod hi adra o'r ysgol yn swp o annwyd - grêt i mi gan ei bod hi'n gwmni da, ond bod pob peth yn 'boring'! Miriam wedyn, mae hi'n naw ac yn bygwth yn ddyddiol ei bod wedi blino gormod i fynd i'r ysgol - ond, yno mae hi erbyn deng munud i naw. Dyddia diddan iawn. Dwi'n credu mod i wedi pasio'r test hefo nhw gan fod 'na edrych ymlaen yn barod am 'tro nesa' a chynllunia mawr ar y gweill. Yr hyn sydd wedi plesio fwyaf dwi'n meddwl ydi mod i yn fodlon rhedag i fyny i'r coed yng nghefn y ty bob bora wrth iddi oleuo ac wedyn gyda'r nos wrth iddi dywyllu i agor a chau dor y cwt ieir, yna bwydo a dyfrio'r bantams a hel yr wya bach sydd yn cael eu dodwy ymhob twll a chornel.

Mae hon yn joban iawn am dridiau, ond mi allai weld bod gorfod bod yn llwyr gyfrifol am yr ieir a'r gath yn feunyddiol yn gallu mynd yn fwrn. 'BORING', dwi'n meddwl 'di'r gair!!!

Roedd eu cyfrifoldeb newydd nhw, sef 'fi', yn dipyn mwy o sialens - Anti Ruth oedd i fod i godi gynta, gneud brecwast, clirio, paratoi bocs bwyd, gyrru i'r fan hyn a'r fan draw a difyrru'n gyffredinol. Ond y nhw oedd yn gwybod sut oedd mami'n gneud bob dydd a tydi newid trefn ddim i fod.

Rown i wedi anghofio pa mor bwysig ydi'r teimlad o fod yn 'saff' i blant - ag mi roedd mynd am y 'lôn goed' bob nos ac i'r 'ciando' yn f'atgoffa i o'r hen ofn hwnnw - ofn tywyllwch. Mi roedd y genod yn mynnu ein bod ni'n tair yn cychwyn y siwrna hefo cloi'r drws cefn, checkio'r ffenestri a gwneud yn siwr bod y cyrtens wedi'u cau yn dynn dros nos!! Roedd rhaid cario y telliffon a fflashlamp i'r llofft hefo ni ac mi roedd y dair ohonom ni'n gorfod cysgu hefo'n gilydd yn y gwely mawr - a dim ond wrth i mi godi'n y bora y sylwes i fod drws y llofft hefyd wedi cael ei gloi ar ein hola!!

Os mai fela mae'r genod hapusa tra mae nhw yn fy ngofal i - iawn, felna fydd hi. Wel, wrth deithio'n ôl yn y car o'r Gogledd wedi'r antur ddiweddara 'ma mi ges i reswm i amau ag ofni hefyd. Ychydig i'r de o Lanidloes mi roedd yna fachgen ifanc dymunol yr olwg efo ces go fawr yn sefyll ar ymyl y ffordd ac yn bodio - fe fu ond y dim i mi aros i'w godi ond ail-feddyliais a meddwl, na, gwell peidio. Yna, wedi cyrraedd Libanus a gwaelod y ffordd sy'n croesi'r Bannau, mi ddois y tu ôl i gar mawr yn symud yn araf ar ganol y ffordd, rhyw bymthag milltir yr awr - doedd 'na neb arall ar y lôn - mi ddilynais y car am gyfnod a diolch i'r drefn, mi ddoeth yna gar i'n cwarfod - ag mi lwyddais innau i oddiweddyd y car mawr - a rhoi'n nhroed i lawr.

Tydwi ddim wedi bod a cymaint o ofn ers talwm iawn - be ddylwn i fod wedi'i neud? Oedd gen i hawl i feddwl yn ddrwg? Beth fasa chi wedi neud Dwi jest a phrynu model o ddol i eistedd hefo mi ar fy siwrne o hyn ymlaen!

---

## Cynllun Casglu

Mae gan gynllun benthyciadau Cyngor y Celfyddydau a sefydlwyd bedair blynedd yn ôl i annog prynu a gwerthfawrogi gweithiau celfyddydol achos i`w ddathlu gan fod rhif y gwerthiannau bellach wedi cyrraedd 2,350.

Cychwynnnwyd CYNLLUN CASGLU Cyngor y Celfyddydau ym mis Rhagfyr 1983 gyda`r nod o gynnig benthyciadau di-log i unigolion drwy gydweithrediad orielau celf. Galluoga`r benthyciadau brynwyr dibrofiad i fentro prynu gwaith da amrywiol ei natur.

Pan gychwynnwyd y CYNLLUN CASGLU bedair blyedd yn ôl dim ond 20 o orielau a gymerai ran yn y cynllun. Bellach mae 40 o orielau ym mhob rhan o Gymru wedi ymuno â`r cynllun ac mae dros £370,000 wedi ei ddosbarthu ar ffurf benthyciadau.

Dywed Nic Pearson, Swyddog Marchnata`r Celf Weledol, Cyngor y Celfyddydau: `Bu`r CYNLLUN CASGLU o fudd mawr i artistiaid ac orielau, yn eu galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Dywed ein holl orielau fod pobl yn fwy mentrus wrth brynu gydag amryw yn prynu gweithiau na fyddent fel arall yn gallu eu fforddio. A chan fod y benthyciad yn un di-log, does neb yn talu mwy nad sydd angen´.

Mae`r CYNLLUN CASGLU yn unigryw yn Ynysoedd Prydain; dyma`r unig gynllun sy`n dwyn cynifer o orielau ynghyd gan ehangu marchnad celfyddyd gyfoes yn sylweddol.

Am wybodaeth bellach cysyllter â Nic Pearson, Swyddog Marchnata`r Celf Weledol, Cyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa, CAERDYDD CF1 3NX. Rhif ffôn : 0222 - 394711 yn ystod y dydd; 0222 611494 gyda`r nos neu ar benwythnosau.

# CCCCCC

Pryd fuoch chi yn y Ganolfan ddiwetha? Dim er's tro rwy`n siwr ond go brin yr ewch yno eto yn y dyfodol a Siop Taflen wedi symud i ganol y ddinas. Does neb yn eich beio am beidio â mynd - rydych chi wedi hen basio 25 oed a`ch plant erbyn hyn yn credu taw rhywbeth i blantos bychain yw adran ac aelwyd.

Ond mae`r Ganolfan yno o hyd ac rwy`n siwr bod gan lawer ohonoch atgofion melys am ddyddiau cynnar Côr yr Aelwyd a Gwilym a`i frwsh o gwmpas eich traed ar ddiwedd yr ymarferion. Efallai i rai ohonoch fod yn ddigon lwcus i ddod o hyd i gymar oes yng Nghonway Road yn y côr neu yn yr Aelwyd neu`r parti dawns. Yn wir efallai bod rhai ohonoch wedi bod ar y pwyllgor rheoli a phwy sy wedi anghofio gêm olaf Barry John a gododd £14,000 i`r Ganolfan?

Ydych chi`n cofio Eisteddfodau Porthaethwy ac Aberteifi? Ydych chi`n cofio meysydd parcio Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd? Do, fe gawsom lawer o hwyl a llawer o arian hefyd i sicrhau Canolfan deilwng i`n hieuenctid.

Ond nid cofgolofn i`r gorffennol yw`r Ganolfan ond cartref cyson i nifer fawr o`n hieuenctid o hyd mewn côr, mewn cwmni dawns ac Aelwyd. Ond bellach `bugeiliaid newydd´ sy yno ac mae eu breuddwydion a`u dulliau o fwynhau yn wahanol i`r hyn oeddynt rai blynyddoedd yn ôl. Ond Cymry Cymraeg a Dysgwyr brwd yr iaith sy`n dal i fynychu`r Ganolfan ac mae`r dyfodol yn obeithiol iawn. Mae`r adeilad yn hen ac mae`r costau cadw a chynnal yn uchel. Mae`r baich ariannol yn drwm ar ychydig ar hyn o bryd. Petai pob un o ddarllenwyr y Dinesydd yn ymaelodi yng Ngymdeithas Cefnogwyr y Ganolfan, ni fyddai problem ariannol. Os gwelwch yn dda, ymestynnwch am ysgrifbin a llenwch y ffurflen sy yn y Dinesydd a dychwelwch hi yn ddiymdroi i`r Ganolfan. Dyna i gyd sydd ei eisiau i sicrhau y bydd Canolfan yr Urdd yn y brifddinas ddiwedd y ganrif hon. Cofier am dair `C´ yr Urdd, Cymru, Cyd-ddyn, Crist. I sicrhau hynny rhaid wrth dair `C´ arall, Cash, Ceiniogau, Credit!

Diolch yn fawr i chi.

John Albert Evans
(ar ran Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd)




Allan o`r Dinesydd Dyddiol adeg Eisteddfod Genedlaethol 1978.

# Queens West



Wyddoch chi ymhle y gellwch chi weld Spudulike a Cotton Blossom a Her Private Life - an entertainment for gentlemen? Mae`r ateb i`w gael ar ail lawr y ganolfan siopa newydd, Queen`s West. (Ar safle BHS gynt). Gelwir y llawr hwn yn Theatr Bwyd ac yno gellwch ddewsi eich hoff fwydydd o`r stondinau sy`n amgylchynu`r oriel, pob un â`i arlwy arbennig.

Er enghraifft, amrywiaeth o datws-yn-eu-crwyn yw arbenigrwydd Spudulike gyda phob math o burger ar gael yn stondin Cotton Blossom. Ac os am bysgod a sglods mae`r rheiny i`w cael yn y gornel sydd wedi ei chynllunio a`i haddurno fel Pier Fictoraidd. Yno hefyd, i swyno`r `gentlemen´ mae`r sioe-sbecian hen ffasiwn sy`n addo, am 10c, ddatgelu cyfrinachau `Ei Bywyd Preifat Hi´ - pwy bynnag oedd `hi´!.

Pizzas? Oes, ond welais i ddim bara brith na bara lawr!

Ar ôl blasu`r bwydydd a`r adloniant gellwch ddefnyddio`r liffts a`r grisiau symud (mae yno arwyddion dwyieithog) i ymweld â`r siopau ar y lloriau islaw. Gosodir rhain fel y Theatr Bwyd ar orielau o gwmpas yr Atriwm canolog ond gan fod sawl uned yn wag ar hyn o bryd mae`n anodd barnu pa fath o gwsmeriaid sy`n debygol o fynychu`r ganolfan. Yn ôl dau ddyn ifanc (ugain oed) fu yno`n ddiweddar mae`n fan cyfarfod da ar gyfer coffi a chlonc yng nghanol y ddinas sy`n awgrymu bod datblygwyr yn awr yn credu mai hybu cymdeithasu yw`r ffordd orau i hybu gwerthiant.

Mae`r defnydd o wydr yn creu awyrgylch moethus er bod yn rhaid rhybuddio`r rhai sy`n dioddef o`r bendro mai ochrau gwydr sy `na i`r lifft y tu allan i`r adeilad!

Dyna felly ganolfan arall i`w hychwanegu at Heol Eglwys y Santes Fair a Chanolfan Dewi Sant a chyn bo hir byddwn hefyd yn gweld y datblygiad mawr nesaf ar safle`r Capitol. Gobeithio bod `na ddigon ohonom a digon o bres i`w gwario yn y siopau newydd.

Un cwestiwn bach sy`n codi - un o denantiaid cyntaf Queen`s West yw Laura Ashley sy wedi symud yno o`r Stryd Fawr. Beth tybed fydd tynged yr hen stryd honno gan fod yr atyniadau newydd masnachol yn denu cwsmeriaid fwy-fwy i`r dwyrain?

# Arddangosfeydd CHWEFROR

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
Y prif Adeilad, Parc Cathays

`Campweithiau o`r Amgueddfa Genedlaethol´ (yn parhau). Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa. Dim ond rhan fach o`r holl gyfoeth sydd gan yr Amgueddfa sydd i`w gweld yn awr.

Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth.

PEINTIADAU CYFOES

Eto, detholiad o rai o brif weithiau`r Amgueddfa am nad oes lle i`w harddangos yn y Prif Adeilad.

ORIEL, Heol Siarl.

Dyfrlliw Cyfoes a Chelf Graffig o Latfia.
23 IONAWR - 20 CHWEFROR

Ffotogallery. Heol Siarl.

`Cyd-ddigwyddiadau Cyfriniol´.

Lluniau mewn lliw sydd wedi eu dewis o waith grŵp o unigolion detholedig. Eisoes wedi bod yn Llundain, fe fydd yr arddangosfa yn teithio o Gaerdydd i`r America, Hong Kong, Awstralia ac Ewrop.

O.N. Tybed beth sy`n digwydd yn Adran Gelf yr Amgueddfa yn ddiweddar yma?

Tra bod y gwaith o ehangu`r adeiladau yn mynd ymlaen byddai`n braf cael rhyw fath o ddatganiad am eu polisi dros dro. Beth sydd ganddynt ar y gweill i drefnu arddangosfeydd arbennig yn y cyfamser, ac yn enwedig am Gelf Cymru?

Neu a yw`r gwaith o ymestyn y prif adeilad yn golygu rhoi gweithgareddau o`r fath o`r neilltu am beth amser? Siawns fod modd trefnu arddangosfa wych o waith cyfoes Cymru. Gwelwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog fod yna ddigon o ddeunydd a digon o artistiaid o safon yng Nghymru heddiw i gynnal arddangosfa yn y brifddinas. (Gweler `Celf Port´, Dinesydd Medi 1988). Y mae`n bwysig bod pobl ag ymwybyddiaeth gref o gelfyddyd Cymreig wrth y llyw, ond anodd yw gweld olion o hyn. Gobeithio nad ydym yn mynd i gael ein hamddifadu tra bo`r gwaith ehangu yn mynd ymlaen.

YMDDIHEURAD

Dymunwn ymddiheuro am beidio â chydnabod caniatâd caredig yr Amgueddfa Genedlaethol i ddefnyddio darlun hynod Cima o `Mam a`i Phletyn´ ar dudalen flaen y Dinesydd y mis diwethaf.
Gol.

**DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Rhagfyr at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Chwefro 18.**

# EIRWYN EVANS

I`r rheini ohonoch oedd yn adnabod Eirwyn, gwisgai`n chwaethus. Dim blewyn o`i le. Cymen, cywir. Yn wir, ceid deuoliaeth ddiddorol yn ei berson. Wedi ei ddinaseiddio`n drwm. Nodweddion y gŵr dinesig yn amlwg arno. Yn gwrtais, yn foneddigaidd, yn ystyriol.

Tipyn o bolish arno, ond nid haen ar yr wyneb mo hwnnw. Roedd y polish yn nwfn ei enaid a llifai`r grasusau ohono yn gwbl naturiol. Gŵr bonheddig, os bu un erioed.

Eto roedd i Lanybydder le yn ei enaid. Ei wreiddiau`n ddwfn ym mro ei fagwraeth. Carai ei filltir sgwâr. Etifeddodd ddiwylliant ei fro ac annwyl yn ei olwg oedd Rhydybont, Capel yr Annibynwyr lle`i maged. Yn y ddinas trodd ei gefndir gwledig, Cymraeg yn gefnogaeth i`r Cymrodorion a`r capel. Nid oedd unrhyw wrthdaro rhwng gŵr y ddinas a`r gŵr o`r wlad. Llwyddodd y ddau i gyd-fyw yn greadigol, hapus. Ond heb Llanybydder a`i ddylanwad dwfn, fydde Eirwyn ddim yn Eirwyn.

Derbyniai`r Faner bob wythnos, does dim digon o`r rheiny o gwmpas, oes e? Fe`i darllenai o glawr i glawr a mynych seiat a gawsom ar ei chynnwys. Âi e a Mefus, ei briod, i`r Steddfod Genedlaethol bob blwyddyn ac yr oedd yn aelod o`r Orsedd. Roedd cymreictod yng ngwythiennau Eirwyn a rhoddodd ei fywyd i ddysgu`r iaith yn ysgolion y ddinas.

Ni ellir sôn am Eirwyn heb gyfeirio at Fethlehem, Gwaelod-y-garth. Fe oedd y trysorydd. Ni bu ei ragorach yn y swydd beryglus honno. Sawl dyn da a ddifethwyd ganddi? Y mae afiechyd trysoryddol a bydd yn ysu calon a meddwl ac yn cau dwylo agored. Mae cewri cedyrn fyrdd i lawr wedi eu darostwng gan yr afiechyd yma. Nid felly Eirwyn. Gwnaeth Eirwyn ei swydd yn weinidogaeth. Gwelodd gyfle trwyddi i hybu gwaith yr Eglwys a bu`n hael ei barodrwydd i`r Ysgol Sul ac unrhyw weithgarwch a ystyriai e y dylai Eglwys ei gefnogi. Wrth gwrs, y mae perthynas trysorydd a`r gweinidog yn un agos, o raid. Ni ches, chi chawn drafod arian o gwbl. Ni sy`n gofau amdanoch chi! A ches reswm droion i ryfeddu at ei haelioni, fe ai gyd-ddiaconiaid, bid siwr. Parchai`r weinidogaeth â pharch dwfn a chyfieithau`r parch hwn yn ymddygiad grasol a boneddigaidd.

`Ma ffordd o neud pethe, onid oes?´ a gwyddai Eirwyn am y ffordd iawn ac anrhydeddus.

Darlledwyd y gwasanaeth o Fethlehem y Sul cynta o`r flwyddyn a darllenai Eirwyn ac y mae`r adnodau yn rhyfeddol o berthnasol. Iago, 4. 13-15. `Heddiw neu yfory byddwn yn mynd i ddinas a`r ddinas, ac fe dreuliwn flwyddyn yno yn marchnata ac yn gwneud arian. Nid oes gan rai fel chi ddim syniad sut y bydd hi arnoch yfory...Dylech ddweud yn hytrach,"Os yr Arglwydd a`i myn, byddwn yn fyw ac fe wnawn hyn a`r llall".´

Go brin i Eirwyn ddeall pa mor wir oedd y geiriau a ddiferodd o`i enau ar donnau`r awyr. A phan y`i gwelais ef ddiwethaf, nos Iau cyn iddo gael ei gipio, fe a Mefus yn ymfalchio yn y gwahoddiad a ddaeth o`wrth gynbrifathro Eirwyn, o Rufain; fe yno`n paratoi i fod yn offeiriad pabyddol ac am i Eirwyn a Mefus dreulio wythnos gydag e cyn ei fod yn gorffen ei gwrs. `Heddiw neu yfory byddwn yn mynd i`r ddinas...´!

Ni chaiff gerdded palmentydd y ddinas sanctaidd ond y mae bellach yn ddinesydd o`r Jeriwsalem Newydd. Gwyddai Eirwyn pwy sy`n trefnu`r daith i honno. Nid er dim y bu`n ffyddlon i ddosbarth beiblaidd ac oedfa.

`Iesu a`m dwg i`r ddinas gadarn.´

Teyrnged y Parchedig T J Davies

**EIRWYN**

Tŵr o anian tirionaf-gŵr o hwyl
  Gwir ei air, a`r dwysaf;
Yn dawel i`w oed olaf,
Yn fwyn o`i Hydref i`w Haf.

Ei arlwy, teithio tirlan-a`i fyfyr,
  A`i Fefus yn gyfran;
O`r byd a`i bedwar ban,
O`i huno, aeth i`w Hafan.

Un annwyl aeth yn Ionawr-ni allwn
  Ond ei golli`n ddirfawr;
Yn ei adfyd, poen drudfawr,
A`i wên a roes i ni wawr.

Emyr Edwards

# Mistar Pêl!



Cynhaliwyd cystadlaethau chwaraeon YR URDD yn y sir y mis diwethaf gyda`r adrannau a`r ysgolion yn cystadlu am le yn y rowndiau terfynol yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i`r canlynol fydd yn cynrychioli`r sir yn y rowndiau terfynol cenedlaethol:

Pêl-droed pump bob ochr : Ysgol Gynradd Coan Penarth.
Pêl-rwyd : Ysgol Gynradd Marlborugh.
Rygbi Saith Bob Ochr : Iolo Morganwg neu Lansdowne.
Nofio : Cynhaliwyd y gala nofio yn y Ganolfan Chwaraeon. Bu dros ddau gant o blant yn cystadlu`n frwd ac edrychwn ymlaen at glywed am lwyddiant y rhai buddugol yn y Gala Genedlaethol.

Os am wybodaeth am weithgareddau`r URDD yn y ddinas cysylltwch â ni yn y Ganolfan yn Heol Conwy. Ffôn : 394452.

---

Dechreuodd Dafydd Parri ar ei swydd fel Swyddog Gwasanaethau Rhaglenni S4C ar ddydd Calan. Mae Dafydd yn frodor o Foduan yn Llŷn ac roedd yn athro yn Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele, hyd ddiwedd y tymor diwethaf. Mae`n dal i fyw yn Ninbych ar hyn o bryd gyda`i wraig Delyth a`i ddwy ferch, Betsan sy`n chwech oed a Siwan sy`n bedair. Gobeithiant symud i Gaerdydd yn y dyfodol agos a`u bwriad yw i`r plant fynychu Ysgol Coed-y-gof.

---

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Dwyfor Lyn Jones, 23 Heol Chargot, Llandaf, am i`r ddau golli eu tadau o fewn ychydig amser i`w gilydd yn ddiweddar.

---

Gofid inni yw gorfod cydymdeimlo unwaith eto â Nans Couch ar ei phrofedigaeth o golli ail frawd mewn cyfnod byr. Mae ein meddyliau hefo hi a`r teulu.

---

Dydd Sadwrn, Ionawr 12, bu farw Mrs Elisabeth Hughes, Heol Pum Erw, gwraig oedd â`i gwreiddiau `n ddwfn ym Mhontrydfendigaid yn yr hen sir Aberteifi. Bu`n byw am flynyddoedd yn Llundain ond dychwelodd i fyw i Gaerdydd rai blynyddoedd yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Mr Ieuan Hughes, ei gŵr a`i deulu a hefyd â Mr E D Evans, Heath Park Avenue, ei brawd a`i deulu yntau.

---

NEWID SWYDDI

Aeth dwy swydd bwysig yn Adran Cyncoed o Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg yn wag yn ddiweddar sef swydd darlithydd yn yr Is-adran Gymraeg a Phennaeth yr Adran Addysg. Mrs Eleri Betts a ddewiswyd i lenwi`r swydd gyntaf. Daeth yno o swydd bwysig arall yn dysgu plant bach yng Nghaerffili. Y gŵr a gafodd yr ail swydd oedd Dr John Pugh a fu am flynyddoedd yn brifathro Ysgol Gymraeg Llantrisant. Dymuna`r Dinesydd bob llwyddiant i`r ddau yn eu gwaith newydd.

# Colofn Shân Emlyn



Mi rydan ni newydd adael cyfnod gwneud addunedau ar ddechrau blwyddyn. Tydw i ddim yn un o`r bobol fydd yn gwneud hynny am y rheswm syml y gwn i na wnawn i byth mo`u cadw nhw. Os oes gen i rinwedd o gwbwl cadw at fy ngair ydy honno. Sobor o beth fyddai torri fy ngair i mi fy hun, heb sôn am bobol eraill.

Peth gwahanol ydy cael nod - achos rhywbeth i ymgyrraedd ato yw hynny; `cyrchu´ at y nod y byddwn ni, ac y byddaf i, ac oes, mae gen i sawl nod o fy mlaen y flwyddyn hon. A fedra i gyrraedd y nod, amser a ddengys. Mae sôn am hyn y f`atgoffa o Taid Bryngwenallt, tad fy mam, a lofnododd lyfr lloffion ei wyrion i gyd fel hyn, `Exelsior, i fyny bo`r nod.´


Mi hoffwn i gael gwell trefn a graen ar yr hen bapur yma sydd mor agos at `y nghalon i. Cael mwy o drefn arnaf i fy hun yn bendant, a chyflawni llawer mwy mewn sawl maes. Mi hoffwn ddisgyblu fy hun i `sgwennu rhywbeth amgenach na fy rwj misol yn y golofn hon. Mi ddywedodd rhywun mai dim ond un gân fawr sydd gan gerddor a bardd. Tydw i ddim wedi darganfod y gân honno ond fy mod yn teimlo bod gen i bytiau o alawon anorffenedig, a thlotach fyddan ni heb alawon syml yntê?

Ar nodyn mwy gwamal, nod arall ydy i ddydd priodas Mari ac Emyr, yr ydan ni ar y funud yng nghanol y paratoadau ar ei gyfer, fynd rhagddo yn rhwydd a didramgwydd. A wir yr i chi - tydy Mam ddim yn mynd i grio y diwrnod hwnnw! Petae ond am y ffaith y byddai hynny yn sbwylio ei mascara a gwneud ei thrwyn yn goch! Nod ddychmygol arall sydd gen i, ffantasiol yn wir, ydy ffeindio siop yng Nghaerdydd - yn Wellfield Road yn ddelfrydol gan fod yn gas gen i fynd i`r dref, siop chwyldroadol fydd yn gwerthu egni wrth y pwys. Achos yn sicir mi fydd angen hwnnw arna i. Hwnnw sy`n brin ar adegau yntê?

O sôn am briodas, testun trafod, os nad dadl y teulu, ydy rhestr y gwahoddedigion; Mari ac Emyr eisiau priodas fach. Dad yn rhoi ochenaid o ryddhad, a Mam eisiau gwahodd y genedl! Mi wn i mai `i diwrnod nhw fydd o, ond mi fydd yn ddiwrnod mawr i ninnau a rhieni Emyr hefyd. Mi wnes i awgrym dros y ´Dolig, awgrym ysbrydoledig o`n i`n meddwl, bod yna le digon mawr i bawb nid nepell o`r Felinheli, bod Pafiliwn yr Eisteddfod ar ei draed ym Mhorthmadog; beth yn well na chael y wledd yno a chael canghennau o Ferched y Wawr i baratoi blasusfwyd?

Chymerodd neb yr awgrym o ddifri - yr uniq sylw a wnaed gan Mari oedd, `a mi fase chi isio cerdd dant y blêrio yn y cefndir.´ WEL - not so far wrong! Biti yntê; mi fase`n syniad gwahanol allai fod yn joli iawn, ydach chi ddim yn meddwl?

Yn ôl at y busnes nod yma - un o`r pethau sy`n mynd i ysgafnhau a gwneud bywyd yn haws ydy magu mwy o oddefgarwch, a dwi`n siwr y bydd angen hwnnw arna i, i gyrraedd pob nod ac i dderbyn trefn rhagluniaeth, beth bynnag fydd y drefn honno. Ar ddechrau blwyddyn, sut mae hi arnoch chi ddarllenydd?



Llongyfarchiadau i Geoff ac Elin Smith ar gael trysor bach yn eu cartref, sef Lowri Mair. Pob dymuniad da iddynt.

---

**Ysgol Gymraeg Radnor**

Y lle: Clwb Ifor Bach.
Yr amser: Nos Wener 18fed o Ragfyr 1987.
Yr achlysur: Noson yng nghwmni Derec Brown, Geraint Griffiths a Caryl Parry Jones - i godi arian i`r ysgol Gymraeg newydd yn Nhreganna.

Agorwyd yr ysgol Gymraeg yn Heol Radnor ger Parc Thomson ym mis Hydref 1987 ac fel y mae`n hysbys i bawb rhaid codi arian tuag at ddarparu offer i unrhyw ysgol y dyddiau hyn. Felly fe drefnwyd noson gan y rhieni i`r perwyl hwn. Roedd lolfa`r Clwb dan ei sang as phawb wrth eu boddau yn gwrando ar gewri`r canu cyfoes yng Nghymru.

Dymuna`r rhieni ddiolch i`r artistiaid am eu gwasanaeth ddi-dâl i gefnogi`r noson. Codwyd y swm anrhydeddus o dros £600 a deallir mai dyma`r tro cyntaf i Glwb Ifor Bach gael ei ddefnyddio gan rieni i godi arian tuag at un o ysgolion Cymraeg y brifddinas - pwyllgorau rhieni yr ysgolion Cymraeg - dalier sylw!

Bleddyn Jones
14 Stryd Brunswick
Treganna

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Ar 28 Chwefror bydd Cwmni Theatr Gwynedd yn ymweld eto â Theatr y Sherman gyda`i gynhyrchiad diweddara, sef Plas Dafydd, y drydedd ddrama o drioleg gan Huw Roberts. Lleolir y ddrama, sy`n ffars fywiog, mewn hen blasty sy wedi gweld dyddiau gwell a`i droi`n sefydliad meddygol o fath i bobol â mwy o bres nag o sens!

Gwell peidio â datgelu mwy rhag difetha mwynhad y gynulleidfa. Cyfarwyddir y cynhyrchiad gan John Ogwen a`r cast yw Alun Elidir, Mari Emlyn, Dewi Rhys, Maureen Rhys, J O Roberts, Gari Williams a Noel Williams.

Haedda`r cwmni hwn ein cefnogaeth yn enwedig o gofio bod ei ddyfodol yn ansicr, yn wir yn y fantol, i`r graddau mai hwn efallai fydd y cynhyrchiad olaf ganddynt. Bwriad y cwmni yw cynhyrchu cyfieithiad o ddrama Brecht, Y Cylch Sialc yn y gwanwyn. Ni ellir bod yn sicir y gwireddir hynny. Calondid ac arf i ddadlau eu hachos fyddai gallu tystio i gynulleidfa`r brifddinas fod yn niferus.

Y mae`n fwriad gan Gwyddfid Jones, Swyddfa Marchnata`r cwmni sefydlu Cymdeithas Cyfeillion Theatr Gwynedd. Y mae cynifer ohonom ni Gymry Caerdydd yn hanu o Wynedd fel mae`n siwr y teimla llawer ohonom fel cefnogi`r syniad. Da o beth fyddai atgoffa Cyngor y Celfyddydau, Coleg y Brifysgol, Bangor a Chyngor Sir Gwynedd i gadw cadernid Gwynedd bod yn rhaid cofio arwyddair Caerdydd, `Deffro Mae´n ddydd´, neu fe aiff yn nos ar y ddrama yng nghadarnle`r Gymraeg



# Llyfrgell

`Gyda lwc, fe fydd y llyfrgell newydd yn agor i`r cyhoedd rywbryd ym mis Mehefin,´ oedd geiriau prif lyfrgellydd dinas Caerdydd, Mr Ieuan Edwards mewn sgwrs â`r Dinesydd.

Roedd y `gyda lwc´ yn peri i mi ofyn am ragor o wybodaeth! Mae pawb ohonom wedi gweld yr adeilad newydd ger y farchnad ar ei draed ers amser ac am wybod pam nad yw byth wedi agor.

`Doedd y lloriau ddim yn ddigon da i fi,´ oedd eglurhad y llyfrgellydd wrth esbonio`r oedi cyn agor. `Bydd miloedd yn cerdded arnyn nhw a rhaid eu cael yn iawn cyn i neb ddechrau gwneud hynny.´

Does ryfedd ei fod am gael `popeth yn iawn,´ ac yntau`n Gardi. Dyna un o nodweddion amlycaf y Cardi. Am gael popeth yn iawn!

Mae Mr Edwards yn siarad Cymraeg yn rhugl. Cafodd ei eni ym Mhont-rhyd-y-groes ar lan afon Ystwyth a chael ei addysg uwchradd yn ysgol Tregaron. Ar ôl gweithio am ychydig yn llyfrgell Ceredigion, aeth i Goleg y Llyfrgellwyr yn Llanbadarn cyn dychwelyd i`w hen lyfrgell. Yna, gadawodd dir ei wlad a mynd i weithio i swydd Hertford, cyn dod i Gaerdydd yn 1977.

Am flynyddoedd ef oedd yn bennaf gyfrifol am y canghennau a medrai ddweud wrth y Dinesydd heb oedi dim fod 32 ohonynt yn y sir i gyd ynghyd â dwy lyfrgell deithiol.

Oddi ar 1982 mae wedi bod yn brif lyfrgellydd a gall Cymry Cymraeg y ddinas fod yn dawel eu meddyliau y bydd ochr Gymraeg y



llyfrgell yn ddiogel dan ei ofal ef.

Mae`n bolisi gan y sir i brynu o leiaf un copi o bobl llyfr Cymraeg a argreffir ond byddai Mr Edwards yn falch pe bai mwy o ddefnydd yn cael ei wneud ohonyn nhw. Er bod y swm blynyddol a gaiff ei wario ar y gwasanaeth llyfrgell dros £4 miliwn, rhaid i`r Cardi a`i staff o tua 250 o bobl edrych yn ofalus ar bob ceiniog a chyfiawnhau pob gwario.

Mae ychydig o lyfrau Cymraeg ym mhob un o`r 32 cangen ond mae llawer gormod ohonyn nhw`n eistedd yn segur ar eu silffoedd a neb yn dod i fynd â nhw allan am dro. (Gair i gall!)

Oherwydd hyn mae wedi bod yn rhyw hanner ystyried canoli`r llyfrau mewn rhai canghennau`n unig ond efallai na fydd galw am hynny o achos pan fydd popeth wedi dod i drefn yn y llyfrgell newydd, bydd pob un o`r 350,000 a mwy o lyfrau, heb sôn am gylchgronau ac ati ar gyfrifiadur a bydd yn bosibl dod i wybod mewn cangen ble mae unrhyw lyfr, o Ganu Aneirin i un o lyfrau Mills and Boon.

Bydd y brif lyfrgell ar gau am gyfnod o tua thair wythnos ym Mehefin oherwydd y symud mawr, ond wedi i hwnnw ddod i ben gallwn fod yn dawel ein meddyliau y bydd `popeth yn iawn´.


TAFLEN

12, DUKE STREET ARCADE,
CAERDYDD CF1 2AZ.
FFON: (0222) 27530


MIS LLWYDDIANNUS a phrysur fu mis cyntaf Taflen yn ei safle newydd yn Duke St. Arcade. Mae'n amlwg bod y cwsmeriaid selog wedi dod o hyd i'r lle erbyn hyn yn ogysal a nifer o gwsmeriaid newydd.

Cafwyd gwerthiant helaeth ar lyfrau a recordiau hen a newydd cyn y Nadolig. Rhai o'r llyfrau mwyaf poblogaidd oedd "Brychan Dir"- nofel hanesyddol gan Nansi Selwood, llyfr Caryl Parry Jones, "Paid a blino dy Fforwards" gan Lyn Davies - llyfr o ysgrifau digri am rygbi, "Ail lyfr o idiomau Cymraeg" a'r flodeugerdd newydd o farddoniaeth yr ugeinfed ganrif yn ogystal a llyfrau plant.

Rhai o'r recordiau mwyaf poblogaidd oedd "Sioe Gerdd" Caryl Parry Jones, "Clair de Lune" Caryl Thomas, "Welcome to Welsh", "Roc Roc Nadolig" Ceffyl Pren, a bu gwerthiant calonogol o uchel ar recordiau Gwyddelig.

I ddathlu dydd Santes Dwynwen mae Taflen wedi trefnu arddangosfa arbennig yn cynnwys gwaith gan Jackie Brett, Gina Raby, Molly Curley, Susan Smith, Richard Price ac eraill. Fe fydd yr arddangosfa ymlaen tan ganol fis Chwefror, felly galwch draw i'w gweld. Yn wahanol i arddangosfeydd arferol bydd croeso i unrhyw un brynu'r eitemau sydd i'w gweld a'u cymryd o'r siop yn syth.

CROCHENWAITH

Un o'r dulliau mwyaf poblogaidd yn y siop yw'r dull "raku". Hen ddull Siapaneaidd o danio crochenwaith yw raku. Mae'n broses sy'n cymeryd rhyw hanner awr. Rhoddir y crochenwaith mewn popty poeth a'u tanio am ryw chwarter awr. Tynnir y potiau chwilboeth allan hefo gefel a'u rhoi mewn llwch lli. Mae'n newid tymheredd sydyn yn achosi i'r croch gracio ac yna mae'r mwg yn lliwio'r craciau yn dda.

Yn y siop er enghraifftiau o waith raku gan Barbara Ineson, Jeremy James, a Rudie Delanghe.

## Parti`r Dinesydd

Nos Sadwrn Ionawr 16eg, cynhaliwyd parti blynyddol Y Dinesydd yn Neuadd y Sgwtiaid yn Rhiwbeina. Calondid mawr i swyddogion y papur a chriw dygn y gegin oedd bod cynifer wedi mentro allan ar noson niwlog, ddiflas. Cynnes oedd yr awyrgych yn y neuadd a phawb yn tystio bod y cawl a`r bara garlleg yn flasus. Fe aeth y mins peis i gyd hefyd, diolch byth, meddai pawb a`u coginiodd!

Llywiwyd y noson gan ein cadeirydd newydd, Robin Jones. Cawsom egwyl o adloniant gan Heddwyn Richards nes yr oedd pawb yn rowlio chwerthin yn eu seddau. Cawsom ganddo gyfrol o storiau digri a`i ddawn dweud ef yn ychwanegu at yr hiwmor. Yna yn ei ffordd unigryw, syber ei hun llywiodd T Arfon Williams gystadleuaeth brawddeg a limerig. Gofynnwyd am frawddeg o`r gair `Tyllgoed´. Gŵr y golygydd enillodd gyda´r frawddeg grafog hon: `Twpdra yw llyncu gormod o eiriau`r Dinesydd´.

Gunston Jones enillodd i limerig a dyma fe.

Eleni yn Torromelinos
Fe gwrddais â geneth fach ddiddos.
Er cymaint y sbri
Rhwng hithau a mi
Gwrthododd hi dynnu ei gwnnos!

Yna Cen Williams, gweithiwr· mwyaf dygn y papur, yn beirniadu`r sylw ar lun erchyll o ddyn anferth, tew, heb fawr amdano, a`r sylw buddugol oedd un John Albert Evans, `Cariad mwy na hwn nid oes gan neb´!


Cafwyd raffl a gwnaed elw teilwng, ond dim ond prin ddigon i dalu am un rhifyn o`r Dinesydd.

Llwyddiant? Oedd, gyda nifer o ddysgwyr, yr haelionaf o gefnogwyr y Dinesydd, yn llenwi bwrdd. Codi arian oedd amcan y noson, ond y mae yna gyfoeth arall nad oes modd rhoi pris arno. Fe gafodd pawb a ddaeth gwmniaeth dda a chymdeithasu mewn dull cartrefol, difyr a chynnes. Y rhai na ddaethant, fe gawsoch golled!

Rydym yn falch clywed fod y Dr T H Jenkins, 30 Heol San Mihangel, Llandaf yn gwella wedi damwain ddifrifol. Trawyd ef gan gar tra`n cerdded yn Heol Caerdydd, Llandaf.

Llawenydd i bawb sy`n adnabod Eilonwy Jenkins a T Rhys Jones oedd clywed am eu dyweddiad. Llaw drom a gafodd Eilonwy am flynyddoedd a bu T Rhys Jones yn gefn mawr iddi. Dymuniad darllenwyr y Dinesydd yw hir oes ac iechyd i`r ddau, a phob hapusrwydd.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 78



AR DRAWS:

1. Cymwynaswyr yr achos yn dianc o geir a faluriwyd. (10)
6. Mae D yn gwneud caws. (4)
9. Maent yn traethu am y tan a drodd yn wyllt. (10)
10. Afon fwyaf Pontrhydyfen. (4)
12. Ei daith efo Todd a fu'n gyfrwng amheus i ddatrys iaith y gwahnol froydd. (12)
15. Buasai yn gadael i rywbeth fod. (9)
17. Mewn bwndel (o chwys?) (2,3)
18. Y Sianel Gyntaf? (3,2)
19. Deilen tridarn lwcus. (9)
20. Cyngor amserol a allai fod yn debyg i'r iar. (4,2,2,4)
24. "Tybio ond _____ i'r mor, Y trawswn ar bob trysor." (Plas Iolyn) (4)
25. Adduned ddibynadwy. (6,4)
26. Paratoi i gyd-dynnu. (4)
27. Trefna hon (yn dawel), a gwna dithau yr un modd, i gysylltu dwy genedl. (4,6)

I LAWR

1. Rhigol y C.W.S. (49
2. _____ ac yn y man, yn achlysurol. (4)
3. Daeth y rhain o hyd i bethau cudd. (12)
4. "A lle i ______pen," (emyn Mrs. Mary Owen) (5)
5. Doi eich nai i drafferth, gan beri iddo anadlu yn deimladwy. (9)
7. Clir, (mewn ffordd o siarad). (10)
8. Codiad sylweddol, o drin pen tyddyn ym Mhowys. (5,5)
11. Mae'n bosib y cei di ryddid a gwyl o droi allan y fath haerllugrwydd. (12)
13. Cerddai yn simsan. (10)
14. Naddu dau air i greu pethau sy'n tecau (10)
16. Gair a ddeil ei drefnu yng nghanol yr adio, er mwyn gwneud y cyfan yn haws i'w ddeall. (9)
21. Un aflan o'r Sowth yn troi yn gas wedi symud i Wynedd. (5)
22. Dogn a rannwyd rhwng y crotesi a'r crots. (4)
23. "Bedwyr, yn drist a distaw, At y _____ aeth eto draw." (T.G.J.)(4)

DATRYSIAD CROESAIR Y DINESYDD RHIF 77

Ar draws: 1. Pwdin;4. Gogoniant; 9. Nepotig;10. Ar gyfer;11. Olud; 24. Sylw;25. Celyn;26. Berw; 29. Oerwynt; 30. Aur a thus; 31. Cyfarchion;32.Taflu.

I lawr 1. Pantomeim;2. Da pluog; 3.Nota;4.Goglais;5. Giamocs; 6.Nage;7. Arferol;8. Twrci; 14. Ymatal;15. Llogell;18. Dan Bwysau;20. Egluraf;21. Gwestai; 22. Dwyrain;23. I`r eithaf; 24. Sionc;27. Myrr;28. Erot.

**Cystadleuaeth 77**

Derbyniwyd 16 ymgais; i gyd yn gywir. Yr enw a ddaeth allan o`r het oedd Cathy Jones, Llanishen. Enwau`r lleill oedd: Gwen Thomas, Yr Wyddgrug, Eira M Jones, Cathays, H.A.Hall, Treganna, Rhian Williams, Lakeside, John Hughes, Llanishen, B.T. Cyncoed, Rhian James, yr Eglwys Newydd, Huana Simpson, Y Bont-faen, C Davies, Cyncoed, Marged Davies, Llandaf, ARR, Abertawe, Sioned Penlly, Y Drenewydd, Robin Bateman. Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd
Diolch i Gwenllian Gwyn Jones am ei chyfraniad hael.

# PRIODAS



Llongyfarchiadau i Dylan, mab Moelwyn a Delyth Jones, Llandaf a Fiona, merch yr Athro a Mrs Derek Embrey, Llysfaen. Priodwyd y ddau yn yr eglwys gadeiriol dydd Sadwrn Ionawr 2il. Aelod o`r Heddlu yw Dylan ac mae Fiona`n nyrsio yr yr Infirmary. Dymunwn hir oes a phob hapusrwydd iddyn nhw yn eu cartref newydd yng Nglyn Rhosyn gan obeithio y bydd pob blwyddyn newydd gystal ag eleni.

Bu`r Nadolig yn gyfnod hapus iawn i Rhian ac Elwyn Roberts Llandaf gan fod Rhian wedi cael mynd adref o`r ysbyty mewn pryd i ddathlu`r ŵyl gyda`i theulu ar ôl genedigaeth Dafydd. Dyma frawd bach i Gruffydd ac ŵyr arall i Alcwyn a Llywela, Coed y Ffald, Gwenfo ac i Nain a Taid, Rhoslan. Llongyfarchiadau iddyn nhw a chroeso i`r bychan.

Llongyfarchiadau i David Boobyer a Nia Samuel ar enedigaeth eu cyntafanedig, merch fach. Mae`n siwr y bydd Nain Caerdydd a Thaid a Nain y Gogledd, yn gwirioni.

NOS SUL - Mawrth 6 - 8.00 o'r gloch
Theatr y Sherman
Drama Gerdd Wreiddiol
YN Y DECHREUAD
Dathlu Cyfieithu'r Beibl
Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari
Tocynnau £3

